# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (294)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Cynnig i atal dros dro Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn caniatáu cynnal dadl ar yr eitem nesaf o fusnes

**NNDM5860 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.6:

Yn atal rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5861 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 3 Tachwedd 2015.

## 3 Dadl ar Fil Cymru Drafft

(60 munud)

**NNDM5861 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cyhoeddi Bil Cymru drafft gan Lywodraeth y DU ar 20 Hydref 2015 ac yn anfodlon nad yw’r model cadw pwerau presennol yn bodloni argymhellion Rhan 2 Comisiwn Silk.

Bil Cymru draft

Rhan 2 Comisiwn Silk

**Cefnogir gan:**
Elin Jones (Ceredigion)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyflawni ar gyfer ein Lluoedd Arfog a'u teuluoedd

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad ar Gyflwr yr Ystâd

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Y Rhaglen i Ddileu TB – Gohiriwyd

## 7 Rhentu Doeth Cymru – Cod Ymarfer (Rhwymedigaethau Statudol a Chanllaw Arfer Gorau), o ganlyniad i Ymgynghoriad – Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

(30 munud)

**NDM5857 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Cod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'i thrwyddedu o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Ddrafft o'r Cod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'i thrwyddedu o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 8 Trefn ystyried y gwelliannau ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

(5 munud)

**NDM5859 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) adrannau 7 i 29

b) adrannau 31 i 88

c) adrannau 90 i 101

d) adrannau 103 i 119

e) adrannau 121 i 131

f) adrannau 133 i 146

g) adrannau 148 i 257

h) Atodlenni 2 i 11

i) adran 30

j) adran 89

k) adran 102

l) adran 120

m) adran 132

n) adran 147

o) adrannau 1 i 4

p) Atodlen 1

q) adrannau 5 i 6

r) teitl hir

## 9 Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

(5 munud)

**NDM5858 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Dadl ar Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2014 - 2015

(60 munud)

**NDM5856 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Arolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Llunio dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol'.

Gellir gweld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.equalityhumanrights.com/cy/llunio-dyfodol-cydraddoldeb-hawliau-dynol

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i anfon neges gref i Lywodraeth y DU ein bod yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

Deddf Hawliau Dynol 1998 ( Saesneg yn unig)

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015